OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1805 (Cy.193)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2004

Wedi'u gwneud - -	*13 Gorffennaf 2004*
Yn dod i rym - -	*1 Medi 2004*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan adrannau 52(3), (4), a (5) a 210(7) o Ddeddf Addysg 2002(**1**),ac ar ôl ymgynghori gyda'r Cyngor Tribiwnlysoedd yn unol ag adran 8 o Ddeddf Tribiwnlysoedd ac Ymchwiliadau 1992(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2004 a deuant i rym ar 1 Medi 2004.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "Rheoliadau 2003" ("*the 2003 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003(**3**);

ystyr "Rheoliadau UCD 2003" ("*the 2003 PRU Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymru) 2003(**4**)).

Darparu gwybodaeth

3. Yn rheoliad 5(1)(a) o Reoliadau 2003 mewnosoder y geiriau "dyddiad geni," o flaen y gair "rhyw".

4. Yn rheoliad 6(1)(a) o Reoliadau UCD 2003 mewnosoder y geiriau "dyddiad geni," o flaen y gair "rhyw".

(**1**) 2002 p.32; *gweler* adran 212(1) i gael ystyr "regulations" a "prescribed".
(**2**) 1992 p.53, diwygiwyd gan baragraff 22 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002.
(**3**) O.S. 2003/3227 (Cy.308).
(**4**) O.S. 2003/3246 (Cy.321).

Swyddogaethau'r corff llywodraethu mewn perthynas â disgyblion sydd wedi'u gwahardd

5.—(1) Yn lle rheoliad 6(3) o Reoliadau 2003 rhodder —

"(3) Rhaid i'r corff llywodraethu ystyried a ddylai'r disgybl gael ei dderbyn yn ôl ai peidio ac os yw o'r farn y dylid derbyn y disgybl yn ôl, rhaid iddo yn ychwanegol ystyried a ddylai'r disgybl gael ei dderbyn yn ôl ar unwaith, neu ei dderbyn yn ôl erbyn dyddiad penodol ac ystyried os na fyddai'n ymarferol i'r pennaeth gydymffurfio â chyfarwyddyd yn mynnu bod y disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl."

(2) Yn rheoliad 6(4), mewnosoder ar ôl y geiriau "rhaid iddo" y geiriau ", onid yw o'r farn na fyddai'n ymarferol i'r pennaeth gydymffurfio â chyfarwyddyd yn mynnu bod y disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl,".

(3) Yn rheoliad 6(6) —

(i) yn y fersiwn Cymraeg, yn lle'r geiriau "y dylid derbyn disgybl yn ôl" rhodder y geiriau "na ddylid derbyn disgybl yn ôl"; a

(ii) ar ôl y geiriau "na ddylid derbyn disgybl yn ôl" (fel y'u hamnewidir gan baragraff (i) uchod) mewnosoder y geiriau "neu ar ôl penderfynu y dylid derbyn disgybl yn ôl, yn penderfynu peidio â rhoi cyfarwyddyd i'r pennaeth yn mynnu bod y disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl".

Swyddogaethau awdurdod addysg lleol mewn perthynas â disgyblion wedi'u gwahardd am gyfnod penodedig

6.—(1) Yn lle rheoliad 7(3) o Reoliadau UCD 2003 rhodder—

"(3) Rhaid i'r awdurdod addysg lleol ystyried a ddylai'r disgybl gael ei dderbyn yn ôl ai peidio ac os yw o'r farn y dylid derbyn y disgybl yn ôl, rhaid iddo yn ychwanegol ystyried a ddylai'r disgybl gael ei dderbyn yn ôl ar unwaith, neu ei dderbyn yn ôl erbyn dyddiad penodol ac ystyried os na fyddai'n ymarferol i'r athro neu athrawes â gofal gydymffurfio â chyfarwyddyd yn mynnu bod y disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl."

(2) Yn rheoliad 7(4), mewnosoder ar ôl y geiriau "rhaid iddo" y geiriau ", onid yw o'r farn na fyddai'n ymarferol i'r athro neu athrawes â gofal gydymffurfio â chyfarwyddyd yn mynnu bod y disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl,".

(3) Yn rheoliad 7(6), ar ôl y geiriau "na ddylid derbyn disgybl yn ôl" mewnosoder y geiriau ", neu, ar ôl penderfynu y dylid derbyn disgybl yn ôl, yn penderfynu peidio â rhoi cyfarwyddyd i'r athro neu athrawes â gofal yn mynnu bod y disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl".

Gwaharddiadau — safon y prawf

7. Ar ôl rheoliad 8 o Reoliadau 2003 mewnosoder —

" **Gwaharddiadau — safon y prawf**

8A. Os yw'n fater —

(a) i'r pennaeth, wrth arfer pŵer a roddwyd gan adran 52(1) o Ddeddf 2002,

(b) i'r corff llywodraethu, wrth arfer swyddogaethau o dan reoliad 6, neu

(c) i banel apêl a ffurfiwyd yn unol â pharagraff 2 o'r Atodlen, wrth arfer swyddogaethau o dan reoliad 7,

i sefydlu unrhyw ffaith, rhaid penderfynu a gafodd y ffaith ei sefydlu yn ôl pwysau tebygolrwydd.".

8. Ar ôl rheoliad 9 o Reoliadau UCD 2003 mewnosoder —